# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 25AIN IONAWR, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 15/01/16)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Lesley Day
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Margaret E.Jones
Jacqueline Hughes
David Wareing
Einir Young
[*sedd wag*]

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

David Clay

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 1 - 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2015 RHAN 4 5 - 15

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU 16 - 17

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 7. CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2015 18 - 25

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

## 8. ARSYLLU CYFARFODYDD

Derbyn adborth ar lafar gan yr aelodau annibynnol yn dilyn arsyllu cyfarfodydd Cyngor Gwynedd / cynghorau tref a chymuned.

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 5 HYDREF 2015

**Yn bresennol:**

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:** Ms Jacqueline Hughes, Miss Margaret E.Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd).

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** David Clay

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Lesley Day

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mehefin, 2015 fel rhai cywir.

**3. AELODAETH Y PWYLLGOR**

Nododd y Swyddog Monitro â thristwch y disgwylid cadarnhad meddygol ynglŷn â sefyllfa Linda Byrne a'i bod yn ymddangos felly y byddai yna sedd wag ar y pwyllgor. Byddai'n gwneud datganiad ac yn trefnu i ffurfioli hynny yn yr wythnosau nesaf gan hysbysebu am aelod annibynnol newydd ar y pwyllgor maes o law.

**4. CEISIADAU AM ODDEFEB**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a phenderfynu ar ddau gais am oddefeb gan aelodau o Gyngor Cymuned Bethesda mewn perthynas â thrafodaethau ynglŷn â throsglwyddo canolfannau lleol o berchnogaeth Cyngor Gwynedd i berchnogaeth y Cyngor Cymuned (neu gorff cymunedol arall).

Manylwyd ar y ddau gais yn unigol, sef:-

- Cais gan y Cynghorydd Godfrey Northam, oedd yn Gadeirydd Pwyllgor Canolfan Rachub ac yn aelod o Bwyllgor Canolfan Cefnfaes, am hawl i siarad yn unig pan drafodir y mater.
- Cais gan y Cynghorydd Walter Watkin Williams, oedd yn aelod o Bwyllgor Canolfan Cefnfaes, am hawl i siarad a phleidleisio pan drafodir y mater.

Nododd y Swyddog Monitro ymhellach:-

- Nad oedd yr un o'r ddau aelod wedi'u penodi ar y cyfryw bwyllgorau gan y Cyngor Cymuned.
- Bod gan y Pwyllgor Safonau hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol ac nad oedd rheswm i gredu nad oedd y ddau gais dan sylw yn cyrraedd y sefyllfa olaf ar y rhestr, sef "*mae'r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall*".
- Nad oedd y ffaith bod y ceisiadau'n cyrraedd y sail yma'n golygu y caniateid goddefeb yn awtomatig ac 'roedd yn rhaid i'r pwyllgor ystyried a oedd budd cyhoeddus o ganiatáu i'r aelodau gymryd rhan, er bod y Cod Ymddygiad yn darparu na ddylent gael gwneud hynny.
- Nad oedd yn eglur yn yr achosion hyn pam bod angen i'r ddau aelod penodol yma siarad ar y mater. 'Roedd y Cynghorydd Northam yn teimlo bod rhaid iddo gymryd rhan er mwyn sicrhau bod y Cyngor Cymuned yn llawn ddeall y sefyllfa ynglŷn â'r neuadd bentref, ond diau y gallai rhywun arall esbonio hynny. 'Roedd y Cynghorydd Northam hefyd wedi nodi ar ei ffurflen bod raid i 4 allan o'r 13 aelod ar y Cyngor Cymuned ddatgan buddiant yn y mater, ond ni fyddai hynny'n effeithio ar gworwm.
- Pe caniateid y ceisiadau hyn, byddai'n rhaid i'r pwyllgor ganiatáu ceisiadau tebyg yn y dyfodol, a heb wybodaeth ynglŷn â pham mae'r angen i siarad yn cyfiawnhau goddefeb, ei bod yn anodd gwybod pa gynsail sy'n cael ei greu.

Cytunodd yr aelodau â sylwadau'r Swyddog Monitro gan nodi bod yr wybodaeth yn denau ac yn annelwig ac nad oedd yn hysbys i'r pwyllgor pam yn union fod y ceisiadau hyn wedi'u cyflwyno.

Nodwyd ymhellach y gallai'r pwyllgor hwn dderbyn llu o geisiadau tebyg gan fod nifer o gynghorau cymuned yn trafod trosglwyddo asedau ar hyn o bryd ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol darparu nodyn cynghori ar gyfer y clercod yn amlinellu'r disgwyliadau. Atebodd y Swyddog Monitro fod cyfres o gyrsiau ar gyfer clercod ac aelodau cynghorau cymuned yn cychwyn y noson honno ac y gellid codi'r mater hwn yno.

**PENDERFYNWYD gwrthod y ddau gais am oddefeb ar sail diffyg gwybodaeth.**

## 5. FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn egluro:-

- Sut y datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu;
- Beth yw'r drefn ar gyfer adolygu'r fframwaith ac adrodd ar y canlyniadau;
- Rôl y Pwyllgor Safonau o fewn y fframwaith.

Codwyd cwestiynau gan aelodau ynglŷn â'r Ddeddf Llesiant a Gofal Iechyd a Chymdeithasol Integredig. Ymatebodd yr Uwch Reolwr i'r cwestiynau hynny, gan egluro y byddai'r gofynion newydd a gyflwynir gan y Ddeddf yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y Fframwaith Llywodraethu, ond nad oedd yn disgwyl y byddai llawer o elfennau newydd yn cael eu hychwanegu gan fod y Fframwaith wedi ei ddylunio i gwmpasu holl weithgareddau'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a chroesawu'r cynnydd yn sgôr effeithiolrwydd y Pwyllgor Safonau.**

## 6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.
Ymhellach i'r adroddiad, nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod yr Ombwdsmon bellach wedi penderfynu peidio ymchwilio i gŵyn 2.3 Achos 201503255, ac felly nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gŵyn agored ar hyn o bryd yn erbyn cynghorwyr Gwynedd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adrodddiad.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2014/15

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu'r rhannau hynny o adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon am y flwyddyn 2014-15 sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad.

Croesawyd bwriad yr Ombwdsmon i gymryd sefyllfa gadarnach yn y dyfodol wrth gyfeirio cwynion 'lefel isaf' yn ôl i swyddogion monitro i gael eu trin yn lleol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8. ARSYLLU CYFARFODYDD

Gwahoddwyd yr aelodau annibynnol i roi adborth ar lafar yn dilyn arsyllu cyfarfodydd Cyngor Gwynedd neu gynghorau tref / cymuned.

Nododd aelod nad oedd rhestr o gyfarfodydd cynghorau cymuned ar gael yn unman. Atebodd yr Uwch Gyfreithiwr fod gan y Cyngor restr o glercod y cynghorau cymuned a bod rhaid cysylltu â hwy yn unigol. Awgrymwyd hefyd y gallai'r aelodau arsyllu ar we-ddarllediadau o gyfarfodydd Cyngor Gwynedd.

Cyflwynodd Miss Margaret Jones adborth yn dilyn arsyllu cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanystumdwy gan nodi:-

- Bod y Cyngor Cymuned yn cyfarfod mewn gwahanol leoliadau, sydd i'w groesawu o safbwynt bod yn gynhwysol ac ystyried y gymuned gyfan.
- Bod ystod dda o'r gymuned yno, gyda'r oedran yn amrywio o 20 i 80, a merched yn bresennol.
- Bod y clerc yn effeithiol iawn, yn egluro popeth ac yn dilyn popeth i fyny.
- Bod y cyfarfod yn un trefnus a chynhwysfawr iawn.
- Bod yr agenda'n amrywiol, gyda 12 eitem, gan gynnwys un eitem eithriedig, dan ystyriaeth.
- Bod y clerc wedi sôn wrth yr aelodau am yr hyfforddiant a ddarperir ar eu cyfer gan y Swyddog Monitro.
- Bod y Cyngor Cymuned yn adrodd yn fisol i'r papur bro a bod hyn yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth ynglŷn â gweithgarwch y Cyngor Cymuned.

Trafodwyd rhai materion cysylltiol, sef:-

- Rôl aelod sy'n dyst i achos o dorri'r Cod Ymddygiad. Nododd y Swyddog Monitro y gallai aelod ofyn i'r clerc roi arweiniad ar y mater neu gysylltu ag ef gan fod gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd i hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad yn y Cyngor hwn ac yn y cynghorau cymuned a thref. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, mai cyfrifoldeb yr aelod ei hun yw ymrwymo i'r Cod.
- Mynediad i'r cyhoedd i gyfarfodydd y Cyngor. Atebodd y Swyddog Monitro nad oedd trefn i rwystro'r cyhoedd i mewn, ond yn ymarferol ac o safbwynt iechyd a diogelwch, na ellid cael sefyllfa lle mae adeiladau'r Cyngor yn gwbl agored.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.05pm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **20fed Ionawr, 2016** |
| **PENNAWD** | **BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) DRAFFT – YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO** |

**Cefndir**

1. Yng Ngorffennaf, 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwigio Llywodraeth Leol“a oedd yn datgan bwriad y Llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth er darparu ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Cyhoeddwyd dau bapur gwyn pellach yn Hydref, 2014 a Chwefror 2015 yn datblygu’r cynigion yma’n bellach. Mabwysiadwyd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf gan y Cynulliad ar yr 20fed o Hydref, 2015 a oedd yn caniatáu i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer rhaglen o uno a diwygio llywodraeth leol.

**Ymgynghoriad**

2. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ymgynghori ar ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru). Mae’r Bil yn cynnig diwygiadau sylfaenol i lywodraeth leol yng Nghymru. Mae’r agwedd allweddol o’r Bil ynglŷn ag ad-drefnu awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys ystod o ddarpariaethau statudol eraill sydd ynglŷn â llywodraethu cynghorau sirol a chymuned.

Rhan 1 Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir
Rhan 2 Pŵer cymhwysedd cyffredinol.
Rhan 3 Hybu mynediad i lywodraeth leol.
Rhan 4 Swyddogaethau Cynghorau Sir a’u haelodau
Rhan 5 Cynghorau Sir: Llywodraethu yn well.
Rhan 6 Cynghorau Cymuned.
Rhan 7 Materion y gweithlu.

Bwriad yr ymgynghoriad yw darparu cyfle i wneud sylwadau ar y darpariaethau fydd yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wedi etholiadau Mai 2016. Y terfyn ar gyfer ymateb yw’r 15fed o Chwefror, 2016.

3. Mae Rhan 4 o’r bil yn cynnig dyletswyddau statudol ar aelodau o’r darpar gynghorau sirol newydd sydd ynglŷn â pherfformiad eu swyddogaethau. Byddai ddyletswydd statudol yn cael ei roi i aelodau fynychu cyfarfodydd, cynnal ‘surgeries’ ward rheolaidd, ateb gohebiaeth, cwblhau cyrsiau

hyfforddiant mandadol a chyhoeddi adroddiad blynyddol.  Byddai disgwyl i arweinyddion  grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grŵp.

4. Byddai pwyllgorau safonau yn derbyn swyddogaethau newydd i ymdrin â chwynion fod aelodau wedi torri’r dyletswyddau statudol a osodir arnynt ac i fonitro cydymffurfiaeth arweinyddion y grwpiau gyda’u dyletswyddau  a chynghori a threfnu hyfforddiant perthnasol.  Gan ddal sylw at rôl ehangach y pwyllgor safonau - byddai dyletswydd statudol ar y pwyllgor i ddarparu adroddiad blynyddol i’r Cyngor yn disgrifio sut y mae wedi gweithredu’r swyddogaethau yn ystod y flwyddyn.

5. Mae’r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion am fethiant honedig gan gynghorydd i gydymffurfio a’r dyletswyddau a osodir yn cael ei adrodd yn Rhan 4 - Pennod 3 o’r Bil drafft.  Mae’r weithdrefn yn disgwyl fod y Swyddog Monitro yn cyfeirio mater i gadeirydd y Pwyllgor Safonau.  Os yw’r Swyddog Monitro a’r cadeirydd yn ystyried na ddylai mater gael ei ymchwilio ni all ymchwiliad gymryd lle.  Os yw naill a’i y Swyddog Monitro neu'r cadeirydd yn ystyried y dylai’r mater gael ei ymchwilio mae rhaid i’r Swyddog Monitro ei ymchwilio. Wedi cwblhau ymchwiliad mae’n rhaid i’r Swyddog Monitro ddarparu adroddiad o’r ymchwiliad i’r Pwyllgor Safonau.  Mae swyddogaethau’r Pwyllgor Safonau a’r camau gall gymryd os yw cynghorydd wedi torri’r ddyletswydd yn cael eu nodi.

6. Mae Rhan 4 o’r Bil drafft wedi ei atodi yn **Atodiad (a)**.  Gwahoddir aelodau i ddarparu sylwadau ar ddarpariaethau Rhan 4 o’r Bil cyn belled â’u bod yn ymwneud a swyddogaeth y Pwyllgor (presennol neu yn y dyfodol).  Cynghori’r aelodau fod ymateb corfforaethol i’r Bil yn cael ei baratoi ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**ARGYMHELLIAD**

Darparu sylwadau ar Ran 4 o’r Bil cyn belled eu bod yn ymwneud a swyddogaethau’r pwyllgor i’w ystyried fel rhan o baratoi ymateb corfforaethol i’r Bil.

**ATODIAD**

Drafft Bil Llywodraeth Leol (Cymru), Rhan 4

Dogfennau Cefndir
Dogfenau Ymgynghori, Drafft Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

"(1A) A local authority must prepare and keep up to date a document (referred to in this section as their constitution guide) which explains, in ordinary language, the content of their constitution."

(3) Yn is-adran (2)—

(a) ar ôl y gair "must" mewnosoder "—

(a) publish their constitution and their constitution guide on their website, and

(b) ";

(b) ar ôl "copies of their constitution" mewnosoder "and their constitution guide".

(4) Yn is-adran (3)—

(a) ar ôl "constitution" mewnosoder "or, as the case may be, their constitution guide";

(b) yn lle'r geiriau "who requests" hyd at ddiwedd yr is-adran, rhodder "on request, either free of charge or at a charge representing no more than the cost of providing the copy".

**80 Dyletswydd ar gynghorau sir i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol**

Rhaid i gyngor sir gyhoeddi ar ei wefan, ac mewn unrhyw fodd arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol, gyfeiriad electronig a chyfeiriad post swyddogol ar gyfer pob aelod o'r cyngor, y gellir anfon gohebiaeth ar gyfer yr aelod iddo.

## RHAN 4

## SWYDDOGAETHAU CYNGHORAU SIR A'U HAELODAU

### PENNOD 1

### TROSOLWG O'R RHAN

**81 Trosolwg**

Yn y Rhan hon—

(a) Mae Penodau 2 i 4 yn gosod dyletswyddau yn ymwneud â'u perfformiad ar aelodau cyngor sir, ac yn gwneud darpariaeth gysylltiedig, gan gynnwys ar gyfer gorfodi'r dyletswyddau hynny;

(b) Mae Pennod 5 yn gwneud darpariaeth—

(i) ar gyfer pennu amcanion sy'n ymwneud â pherfformiad gweithrediaeth cyngor sydd â threfniadau gweithrediaeth;

(ii) i ymgeiswyr ar gyfer eu hethol yn arweinydd gweithrediaeth cyngor lunio maniffestos ysgrifenedig;

(iii) ar gyfer penodi cynorthwywyr i weithrediaethau pan fo gan gyngor drefniadau gweithrediaeth;

(iv) ar gyfer dyroddi canllawiau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i feiri etholedig ac arweinwyr gweithrediaeth;

(c) Mae Pennod 6 yn gwneud darpariaeth—

(i) sy'n dileu'r gofyniad i gyngor sir ddynodi pennaeth gwasanaeth cyflogedig ac yn ei gwneud yn ofynnol, yn hytrach, bod prif weithredwr yn cael ei benodi ar gyfer y cyngor, y bydd ei swyddogaethau yn cynnwys dyletswyddau a osodir o dan y Bennod honno;

(ii) sy'n ymwneud â phenodi pennaeth gwasanaethau democrataidd cyngor sir, a pholisi tâl cyngor fel y mae'n berthnasol i'r swydd honno;

(d) Mae Pennod 7 yn gwneud darpariaeth—

(i) mewn perthynas â chyfarfodydd a swyddogaethau pwyllgorau trosolwg a chraffu;

(ii) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau safonau lunio adroddiadau blynyddol ar y modd y maent yn arfer eu swyddogaethau;

(e) Mae Pennod 8 yn gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf 2000 a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4).

## PENNOD 2

## DYLETSWYDDAU AR AELODAU O GYNGHORAU SIR

*Dyletswyddau perfformiad*

### 82 Aelodau o gynghorau sir i fynychu cyfarfodydd

(1) Rhaid i aelod o gyngor sir fynychu pob cyfarfod perthnasol.

(2) Ond nid yw aelod yn torri'r ddyletswydd o dan is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.

(3) At ddibenion is-adran (1), mae pob un o'r canlynol yn gyfarfod perthnasol—

(a) cyfarfod o'r cyngor sir y mae'r person yn aelod ohono;

(b) cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor i'r cyngor sir, os yw'r person yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw;

(c) cyfarfod o unrhyw gyd-bwyllgor, cyd-fwrdd neu gorff arall y mae'r person yn aelod ohono, os yw'r pwyllgor, y bwrdd neu'r corff hwnnw yn cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r cyngor sir, neu wedi ei benodi i gynghori'r cyngor ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau;

(d) os yw cyngor sir yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth a bod y person yn aelod o'r weithrediaeth, cyfarfod o'r weithrediaeth neu o bwyllgor i'r weithrediaeth y mae'r person yn aelod ohono;

(e) unrhyw gyfarfod arall y byddai disgwyliad rhesymol ar y person i fod yn bresennol ynddo wrth arfer ei swyddogaethau fel aelod o'r cyngor sir.

(4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i aelod o gyngor sir sy'n arfer hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011.

(5) Nid oes unrhyw beth yn yr adran hon yn effeithio ar weithrediad adran 85 o Ddeddf 1972 (gadael swydd oherwydd methiant i fynychu cyfarfodydd am chwe mis).

**83 Aelodau o gynghorau sir i gynnal cymorthfeydd**

(1) Rhaid i aelod o gyngor sir gynnal cymhorthfa o leiaf bedair gwaith ym mhob cyfnod perthnasol o 12 mis.

(2) Ond nid yw aelod yn torri'r ddyletswydd o dan is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.

(3) Mae aelod yn cynnal cymhorthfa os yw'r aelod yn sicrhau ei fod ar gael am o leiaf awr er mwyn cyfarfod ag aelodau o'r cyhoedd i drafod materion yn breifat.

(4) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i'r aelod sicrhau y cyhoeddir lleoliad, dyddiad ac amser y gymhorthfa ar wefan y cyngor ac mewn unrhyw fodd arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol fwy na saith niwrnod cyn diwrnod y gymhorthfa.

(5) At ddibenion yr adran hon, cyfnod perthnasol o 12 mis yw—

(a) y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r aelod yn cymryd ei swydd fel aelod o'r cyngor, a

(b) pob cyfnod dilynol o 12 mis.

(6) At ddibenion is-adran (5), mae unrhyw gyfnod pan fo aelod yn arfer hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011 i'w ddiystyru; yn unol â hynny, mae'r ddau gyfnod a ganlyn i'w trin fel cyfnodau olynol—

(a) unrhyw ran o gyfnod o 12 mis sy'n dod yn union cyn y cyfnod o absenoldeb teuluol, a

(b) y cyfnod sy'n dechrau yn union ar ôl y cyfnod o absenoldeb teuluol.

**84 Aelodau o gynghorau sir i ateb gohebiaeth**

(1) Rhaid i aelod o gyngor sir ymateb i bob gohebiaeth a anfonir i'w gyfeiriad swyddogol o fewn 14 o ddiwrnodau o'i derbyn.

(2) Ond nid yw aelod yn torri'r ddyletswydd o dan is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.

(3) "Cyfeiriad swyddogol" aelod yw unrhyw gyfeiriad (boed yn gyfeiriad post neu'n gyfeiriad electronig) a gyhoeddir gan y cyngor o dan adran 80.

(4) Nid yw'r adran hon yn gymwys i aelod o gyngor sir sy'n arfer hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011.

**85 Aelodau o gynghorau sir i gwblhau hyfforddiant**

(1) Rhaid i aelod o gyngor sir gwblhau pob hyfforddiant gorfodol.

(2) Ond nid yw aelod yn torri'r ddyletswydd o dan is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.

(3) Mae hyfforddiant yn orfodol os yw'r cyngor sir y mae person yn aelod ohono wedi hysbysu'r person bod rhaid iddo ei gwblhau.

(4) Nid yw'r adran hon yn gymwys i aelod o gyngor sir sy'n arfer hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011.

*Dyletswydd i lunio adroddiad blynyddol*

**86 Aelodau o gynghorau sir i lunio adroddiadau blynyddol**

(1) Rhaid i aelod o gyngor sir lunio adroddiad—

(a) am ei weithgareddau fel aelod o'r cyngor yn ystod y cyfnod o 12 mis y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef;

(b) sy'n nodi canlyniadau'r gweithgareddau hynny, os ydynt yn wybyddus i'r aelod,

(2) Rhaid i aelod o gyngor sir gyflwyno'r adroddiad a lunnir ganddo o dan is-adran (1) ("adroddiad blynyddol") i bennaeth gwasanaethau democrataidd y cyngor sir yn unol â rheolau sefydlog y cyngor a wneir yn rhinwedd is-adran (3)(b).

(3) Rhaid i gyngor sir bennu yn ei reolau sefydlog—

(a) y cyfnod y mae'n rhaid i adroddiadau blynyddol ymwneud ag ef, a

(b) pryd y mae'n rhaid cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd.

(4) Ni chaiff rheolau sefydlog a wneir o dan is-adran (3)(b) ganiatáu cyflwyno adroddiad blynyddol ar ôl diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â diwrnod cyfarfod blynyddol y cyngor sir sy'n dilyn y cyfnod y mae'r adroddiad blynyddol yn ymwneud ag ef.

(5) Rhaid i gyngor sir gyhoeddi'r adroddiadau blynyddol a gyflwynir gan ei aelodau.

## PENNOD 3

## TORRI DYLETSWYDDAU O DAN BENNOD 2

*Achos posibl o dorri dyletswyddau perfformiad*

**87 Cwynion am fethiant aelod i gydymffurfio â dyletswyddau**

(1) Caiff person wneud cwyn am achos posibl o dorri dyletswydd a osodir gan adran 82, 83, 84 neu 85 gan aelod o gyngor sir i swyddog monitro'r cyngor hwnnw.

(2) Rhaid i gŵyn o dan is-adran (1) gael ei gwneud yn ysgrifenedig.

**88 Penderfynu a ddylid ymchwilio i achos posibl o dorri dyletswydd perfformiad ai peidio**

(1) Os yw swyddog monitro cyngor sir—

(a) yn cael cwyn o dan adran 87, neu

(b) fel arall â rheswm i gredu bod aelod wedi torri dyletswydd o dan adran 82, 83, 84 neu 85,

rhaid iddo gyfeirio'r mater at gadeirydd pwyllgor safonau'r cyngor sir.

(2) Rhaid i'r swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau ystyried gyda'i gilydd a ddylid ymchwilio i'r mater ai peidio.

(3) Wrth ystyried a ddylid ymchwilio i fater ai peidio, rhaid i'r swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau ystyried—

(a) mewn achosion pan fo'r swyddog monitro wedi derbyn cwyn o dan adran 87—

(i) a yw'r gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus, a

(ii) a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r un ffeithiau â chŵyn yr ymdriniwyd â hi eisoes, neu ffeithiau sy'n sylweddol debyg iddynt, a

(b) ym mhob achos, a yw'n briodol ymchwilio i'r mater.

(4) Os yw naill ai'r swyddog monitro neu gadeirydd y pwyllgor safonau yn ystyried y dylid ymchwilio i fater, rhaid i'r swyddog monitro ymchwilio i'r mater.

(5) Os yw'r swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau ill dau yn ystyried na ddylid ymchwilio i fater, ni chaniateir cynnal unrhyw ymchwiliad; ac, mewn achosion pan fo'r swyddog monitro wedi derbyn cwyn o dan adran 87, rhaid i'r swyddog monitro gymryd camau rhesymol cyn gynted ag y bo'n ymarferol—

(a) i hysbysu'r person a wnaeth y gŵyn na chynhelir ymchwiliad i'r mater, a

(b) i roi rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(6) Caiff y swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau, at ddiben penderfynu a ddylid ymchwilio i fater, wneud yr ymholiadau hynny y maent yn ystyried sydd yn angenrheidiol.

*Achosi posibl o dorri dyletswydd i lunio adroddiad blynyddol*

**89 Penderfynu a ddylid ymchwilio i achos posibl o dorri dyletswydd i wneud adroddiad blynyddol ai peidio**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r pennaeth gwasanaethau democrataidd ar gyfer cyngor sir yn ystyried y gallai aelod o'r cyngor sir fod wedi torri'r ddyletswydd o dan adran 86.

(2) Caiff y pennaeth gwasanaethau democrataidd—

(a) hysbysu swyddog monitro'r cyngor, a gaiff ymchwilio i'r mater;

(b) os yw'r pennaeth gwasanaethau democrataidd yn swyddog monitro i'r cyngor yn ogystal, ymchwilio i'r mater (gan arfer ei swyddogaethau fel swyddog monitro).

(3) Wrth ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad o dan yr adran hon, rhaid i'r swyddog monitro ymgynghori â chadeirydd pwyllgor safonau'r cyngor sir ynglŷn ag a yw'n briodol ymchwilio i'r mater.

*Ymchwiliadau, adroddiadau a sancsiynau*

**90 Ymchwiliad gan swyddog monitro**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw swyddog monitro cyngor sir yn ymchwilio i fater o dan adran 88 (achos posibl o dorri dyletswyddau perfformiad) neu 89 (achos posibl o dorri dyletswydd i lunio adroddiad blynyddol).

(2) Rhaid i'r swyddog monitro roi cyfle i'r aelod sy'n destun yr ymchwiliad ymateb i'r mater yr ymchwilir iddo.

(3) Caiff y swyddog monitro—

(a) gofyn i unrhyw berson am wybodaeth yn ymwneud â'r mater yr ymchwilir iddo, a

(b) gofyn i unrhyw berson ei gynorthwyo i gynnal yr ymchwiliad.

**91 Adroddiad y swyddog monitro**

(1) Ar ôl cynnal ymchwiliad o dan adran 88 neu 89, rhaid i swyddog monitro cyngor sir—

(a) darparu adroddiad ar yr ymchwiliad i bwyllgor safonau'r cyngor sir,

(b) gwneud unrhyw argymhellion i'r pwyllgor safonau y mae'r swyddog monitro yn ystyried ei bod yn briodol eu gwneud,

(c) anfon copi o'r adroddiad, ac unrhyw argymhellion a wneir, at yr aelod o'r cyngor sir a oedd yn destun yr ymchwiliad, a

(d) os yw'r ymchwiliad yn deillio o gŵyn o dan adran 87, cymryd camau rhesymol i anfon copi o'r adroddiad, ac unrhyw argymhellion a wneir, at y person a wnaeth y gŵyn.

(2) Rhaid i'r pwyllgor safonau ganiatáu i'r swyddog monitro ymddangos ger ei fron er mwyn cyflwyno'r adroddiad ac unrhyw argymhellion a wneir.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am y cyhoeddusrwydd sydd i'w roi i adroddiadau ac argymhellion a ddarperir o dan yr adran hon.

**92 Ystyried mater gan bwyllgor safonau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw pwyllgor safonau cyngor sir yn cael adroddiad gan swyddog monitro o dan adran 91.

(2) Rhaid i'r pwyllgor safonau ddyfarnu a oes unrhyw dystiolaeth o dorri'r ddyletswydd o dan sylw ai peidio.

(3) Os yw'r pwyllgor safonau yn dyfarnu nad oes unrhyw dystiolaeth o dorri'r ddyletswydd, rhaid iddo—

(a) hysbysu'r aelod sy'n destun yr adroddiad, a

(b) os yw'r adroddiad yn deillio o gŵyn o dan adran 87, cymryd camau rhesymol i hysbysu'r person a wnaeth y gŵyn.

(4) Os yw'r pwyllgor safonau yn dyfarnu bod tystiolaeth o dorri'r ddyletswydd, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod sy'n destun yr adroddiad y caiff gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor safonau, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig, mewn cysylltiad â'r adroddiad.

(5) Caiff y pwyllgor safonau, at ddibenion arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon—

(a) gofyn i'r swyddog monitro ymddangos ger ei fron er mwyn ei gynorthwyo, a

(b) gofyn i unrhyw berson am wybodaeth, neu wahodd unrhyw berson i gyflwyno sylwadau iddo.

(6) Ni chaiff y swyddog monitro wrthod, yn afresymol, gais a wneir o dan is-adran (5).

(7) Rhaid i'r pwyllgor safonau bennu o fewn pa gyfnod y caiff aelod gyflwyno sylwadau o dan is-adran (4); ond ni chaiff y cyfnod fod yn llai na 28 o ddiwrnodau, yn dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad i'r aelod o dan yr is-adran honno.

**93 Dyfarniad y pwyllgor safonau**

(1) Wedi i'r cyfnod a bennir o dan adran 92(7) ar gyfer cyflwyno sylwadau ddod i ben, rhaid i'r pwyllgor safonau ddyfarnu a yw'r aelod sy'n destun yr adroddiad o dan adran 91 wedi torri'r ddyletswydd o dan sylw ai peidio.

(2) Os yw'r pwyllgor safonau yn dyfarnu bod yr aelod wedi torri'r ddyletswydd, caiff benderfynu—

(a) ceryddu'r aelod,

(b) atal yr aelod neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o'r cyngor sir am gyfnod nad yw'n hirach na chwe mis, neu

(c) peidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

(3) Rhaid i'r pwyllgor safonau—

(a) hysbysu'r aelod am ei ddyfarniad o dan yr adran hon, ac am unrhyw gamau a fydd yn dilyn, a

(b) os yw'r adroddiad yn deillio o gŵyn o dan adran 87, cymryd camau rhesymol i hysbysu'r person a wnaeth y gŵyn am y materion hynny.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am y cyhoeddusrwydd sydd i'w roi i unrhyw ddyfarniad o dan yr adran hon ac i unrhyw gamau a gymerir yn erbyn aelod.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n rhoi'r hawl i aelodau cyngor sir apelio yn erbyn unrhyw ddyfarniad gan bwyllgor safonau o dan yr adran hon.

## PENNOD 4

## DARPARIAETH BELLACH YNGHYLCH DYLETSWYDDAU AR AELODAU

*Rheoliadau a chanllawiau sy'n ymwneud â Phenodau 2 a 3*

### 94 Rheoliadau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach am y modd y mae'n rhaid ymdrin â methiant posibl i gydymffurfio â dyletswydd a osodir gan Bennod 2.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth, yn benodol—

(a) am faterion sydd i'w hystyried wrth ystyried a ddylid ymchwilio i achos posibl o dorri dyletswydd;

(b) am faterion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw aelod wedi torri dyletswydd;

(c) sy'n galluogi swyddog monitro neu bwyllgor safonau i gyfeirio achos posibl o dorri dyletswydd, neu unrhyw fater arall sy'n dod i sylw'r swyddog monitro neu'r pwyllgor safonau yn ystod ymchwiliad, at swyddog monitro neu bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall;

(d) am weithdrefnau sydd i'w dilyn gan swyddog monitro neu bwyllgor safonau;

(e) am ddatgelu gwybodaeth;

(f) sy'n galluogi talu symiau i bersonau ar ffurf treuliau a lwfansau neu gostau;

(g) am sut y mae apelau i'w gwneud a'u hystyried, a sut y penderfynir arnynt.

(3) At ddibenion is-adran (2)(c), ystyr "awdurdod perthnasol" yw—

(a) cyngor sir;

(b) awdurdod tân ac achub;

(c) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol.

**95 Canllawiau**

Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan Bennod 2 neu 3 roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

*Diwygiadau cysylltiedig*

**96 Pwyllgorau safonau i ddarparu hyfforddiant**

Yn adran 54 o Ddeddf 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), cyn is-adran (3) mewnosoder—

"(2B) A standards committee of a county council in Wales also has the specific function of advising, training or arranging to train members of the council on matters relating to the duties imposed by sections 82 to 86 of the Local Government (Wales) Act 2017 (duties to attend meetings, hold surgeries, answer correspondence, complete training and make annual reports)."

**97 Diwygiadau i Fesur 2011**

(1) Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Mae adran 5 wedi ei diddymu.

(3) Yn adran 7, ar ôl is-adran (1), mewnosoder—

"(1A) Rhaid i awdurdod lleol—

(a) ystyried a ddylai fod yn orfodol i'w aelodau gwblhau unrhyw hyfforddiant o dan adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017, a

(b) wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (1), sicrhau y darperir unrhyw hyfforddiant y mae'n orfodol i aelod ei gwblhau o dan adran 85 o'r Ddeddf honno."

*Rôl arweinyddion grwpiau gwleidyddol ar gynghorau sir*

**98 Dyletswyddau ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad**

(1) Mae Deddf 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 52 mewnosoder—

**"52A County councils: duties of leaders of political groups in relation to standards of conduct**

(1) A leader of a political group consisting of members of a county council in Wales—

(a) must take reasonable steps to promote and maintain high standards of conduct by the members of the group, and

(b) must co-operate with the council's standards committee (and any sub-committee of the committee) in the exercise of the standards committee's functions.

(2) In complying with subsection (1), a leader of a political group must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers may by regulations make provision for the purposes of this section about the circumstances in which—

(a) members of a county council in Wales are to be treated as constituting a political group;

(b) a member of a political group is to be treated as a leader of the group.

(4) Before making regulations under subsection (3), the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate."

(3) Yn adran 54 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) A standards committee of a county council in Wales also has the specific functions of—

(a) monitoring compliance by leaders of political groups on the council with their duties under section 52A(1), and

(b) advising, training or arranging to train leaders of political groups on the council about matters relating to those duties."

## PENNOD 5

## GWEITHREDIAETHAU CYNGHORAU SIR

### 99 Amcanion i'w cyflawni gan weithrediaethau cynghorau

Yn Neddf 2000, yn y man priodol mewnosoder yr adran a ganlyn—

**"15A Duty to set objectives etc. in relation to discharge of functions**

(1) As soon as practicable after an elected mayor or, as the case may be, executive leader of a local authority is elected, he or she must set objectives to be met by the executive in the discharge of functions which, under executive arrangements, are the responsibility of the executive.

(2) An elected mayor or executive leader must keep objectives set under this section under review, and may revise the objectives at any time.

# Eitem 6

| Pwyllgor : | PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| **Dyddiad :** | **25 Ionawr 2016** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

**2. Cwynion**

**2.1 Achos 201503255**

Dyddiad derbyn: 02/09/15

**Cwyn**

Roedd y cynghorydd wedi dwyn i ben sgwrs ffôn gyda'r achwynydd mewn perthynas â difrod a wnaed i eiddo'r achwynydd.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad.

Tystiolaeth annigonol i gadarnhau'r gŵyn. Ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio heb dystiolaeth gref sy'n awgrymu torri'r cod.

**2.2 Achos 2665/201504570**

Dyddiad derbyn: 18/11/15

**Cwyn**

Roedd ymddygiad y cynghorydd mewn cyfarfod o'r cyngor tref wedi bod yn ymosodol tuag at, ac yn gwahaniaethu yn erbyn, corff lleol yn ystod trafodaeth ar gais am arian gan y corff hwnnw.

**<u>Penderfyniad</u>**

Dim ymchwiliad.

O'r dystiolaeth oedd ar gael nid oedd hi'n ymddangos bod yr aelod wedi torri'r cod. Roedd ganddo'r hawl, fel rhan o'i gyfrifoldebau fel cynghorydd, i ofyn cwestiynau a mynnu cadarnhad o fanylion yr ymgeisydd.

**2.3 Achos 7294/201504586**

Dyddiad derbyn: 18/11/15

**<u>Cwyn</u>**

Cwyn gan gyd gynghorydd tref fod aelod wedi defnyddio ei gamera i fwlio'r achwynydd ar ddau achlysur ac wedi ei sarhau'n eiriol ar sawl achlysur.

**<u>Penderfyniad</u>**

Dim ymchwiliad.

Pan ddigwyddodd rhai o'r materion honedig nid oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd. Dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn y bydd y cod yn berthnasol i gynghorydd pan fydd yn gweithredu fel unigolyn preifat, ac nid oedd yn ymddangos bod yr amgylchiadau hynny yn bodoli yn yr achos hwn. Nid oedd yr achwynydd yn medru cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r honiadau eraill.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **20fed Ionawr, 2016** |
| **PENNAWD** | **CYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2015** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO** |

**Cefndir**

Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau Cymru yng Nghaerdydd yn Hydref 2015 a mynychais gydag aelodau o’r Pwyllgor .

Mae Cyngor Dinas  Caerdydd oedd yn cynnal y digwyddiad wedi paratoi adroddiad o’r gynhadledd sydd i’w gael yn yr  Atodiad.

Fe nodwch o’r adroddiad fod ystod o gyflwyniadau a gweithdai ynglŷn â safonau a moesoldeb ble codwyd nifer o faterion o ddiddordeb a heriol. Gofynnir I’r Pwyllgor ystyried yr adroddiad ac unrhyw faterion neu negeseuon allweddol y gall eu hadnabod.

**ARGYMHELLIAD**

I dderbyn yr adroddiad.

**ATODIAD**

Adroddiad Cynhadledd Safonau Cymru 2015.

## Cynhadledd Safonau Cymru 2015 - Safonau a Moeseg mewn Byd sy'n Newid

Thema cynhadledd eleni oed "Safonau a Moeseg mewn Byd sy'n Newid" er mwyn adlewyrchu'r heriau a wynebir gan sector llywodraeth leol Cymru. Nod y gynhadledd oedd atgyfnerthu pwysigrwydd hyrwyddo a chynnal safonau uchel ac ymddygiad da a'r cyswllt rhwng ymddygiad da, llywodraethu da a darparu gwasanaeth ardderchog. Roedd y gynhadledd hefyd yn gyfle gwych i rannu syniadau, arferion gorau a dysgu.

Roedd 117 o bobl yn bresennol yn y gynhadledd o 27 o sefydliadau ledled sector cyhoeddus Cymru, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob prif gyngor yng Nghymru, nifer o gynghorau cymuned, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a'r gwasanaethau tân ac achub.

Mae'r sleidiau o'r gynhadledd ar gael yma:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Visiting/SCW2015/Presentations/Pages/default.aspx

**Crynodeb o'r cyflwyniadau yn y gynhadledd**

Agorwyd y sesiwn gyntaf gydag araith gan Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a ystyriodd p'un a oedd Egwyddorion Nolan yn addas i'r pwrpas yn yr hinsawdd gyfredol ac am yr 20 mlynedd nesaf. Crynhoir y prif bwyntiau o'i gyflwyniad isod:

- Yn y cyd-destun cyfredol o boblogaeth sy'n heneiddio, toriadau mewn gwariant cyhoeddus, integreiddio'r GIG/Gwasanaethau Cymdeithasol, ad-drefnu posib i lywodraeth leol a'r symudiad tebygol tuag at ostyngiadau pellach ym maint a lefel darpariaeth y wladwriaeth - mae egwyddorion Nolan yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas ond o bosib nad ydynt bellach yn ddigonol.

- Mae angen arweinyddiaeth - effeithiol ac wedi'i dosbarthu - yn ogystal â'r egwyddorion a'r mecanwaith cwynion ffurfiol. Mae'r cwynion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn flinderus (megis cynghorwyr yn 'twtian ac yn pwffian'), yn sgil diffyg arweinyddiaeth.

- Mae angen "gosod gwarchodwr" yn gyntaf, cyn dod at yr Ombwdsmon gan fod eu hadnoddau'n gyfyngedig. Dylai'r 'gwarchodwyr' fod yn bawb, o staff rheng-flaen i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu.

- Croesawodd Nick y Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd oherwydd ei fod yn caniatáu i'r Ombwdsmon symud o fod yn adweithiol i fod yn gweithio ar eu menter eu hunain. Bydd y Mesur (os a phan gaiff ei ddeddfu) yn eu galluogi i ystyried cwynion am ysbytai preifat (os

comisiynir gwasanaethau gan ddinasyddion preifat) a derbyn cwynion a wneir ar lafar.

Fe wnaeth tri siaradwr pellach rannu eu meddyliau ar Egwyddorion Nolan a'u defnydd presennol hefyd.

**Lyn Cadwallader - Prif Weithredwr, Un Llais Cymru**

- Fe wnaeth Lyn amlinellu pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel o lywodraeth hefyd.

- Croesawodd ofynion y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol i gynhyrchu adroddiadau blynyddol ac ymagwedd rheoli perfformiad ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref (CCaTh).

- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiffinio pwrpas CCaTh fel y gallant symud ymlaen yn fwy hyderus. Mae'n glir bod angen newid diwylliannol ar CCaTh yn cynnwys cymwyseddau a sgiliau newydd fel y gallant fod yn gyrff sy'n darparu. Mae angen i CCaTh gael mandad etholiadol clir hefyd a rheoli ymgynghori effeithiol gan fod canfyddiad y cyhoedd o'u gwaith yn isel.

- Tra bod nifer y cwynion sy'n deillio o CCaTh wedi gostwng yn ddiweddar, mae angen i fwy o gynghorau ymgymryd â hyfforddiant ar foesegau a safonau.

**Peter Davies, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru**

- Cydraddoldeb a pharch yw'r materion mwyaf sylweddol ar gyfer safonau a moesegau o hyd. Golyga hyn fod yna angen parhaus ar gyfer hyfforddiant i gynghorwyr ynghyd â chyrsiau gloywi.

- Rhaid i systemau mewnol gael eu cefnogi gan fonitro allanol, ond a yw aelodau pwyllgorau safonau yn rhy agos i fod yn wrthrychol ac yn annibynnol?

**Jan Williams, Comisiynydd Annibynnol Cwynion yr Heddlu Cymru**

- Fe wnaeth Jan bwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth hefyd. Yr hyn sy'n bwysig yw gosod safonau priodol, diwylliant, a gwneud y peth iawn bob dydd sy'n gofyn am ymddygiad moesegol. Mae angen mwy na dim ond polisïau, trefnau ac ymarferion; mae hyfforddiant yn hanfodol ynghyd ag osgoi llwytholdeb pan fo pethau'n mynd o chwith.

**Gweithdai**

Cynhaliwyd pum gweithdy ar ddau achlysur yn y gynhadledd.

**1. Cyfryngau Cymdeithasol - Peidio â mynd i Drwbl - Patrick Arran, Pennaeth Cyfreithiol, Gwasanaethau Democrataidd a Chaffael, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Daniel Hurford, WLGA.**

Roedd dwy ran i'r gweithdy hwn. Roedd y gyntaf yn canolbwyntio ar sut y gellir defnyddio gwahanol fathau o gyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter a blogio) i gadw mewn cysylltiad â'r cyhoedd a strategaethau i'w defnyddio'n effeithiol. Roedd yr ail ran yn canolbwyntio ar sut i beidio â mynd i drwbl drwy ddarparu gwybodaeth ar faterion cyfreithiol, ynghyd â chyfraith achos diweddar oherwydd gall y ddeddf difenwad fod yn berthnasol i faterion cyfryngau cymdeithasol.

Gwelir fod e-bost a chyfryngau cymdeithasol wedi newid ymddygiad cynghorwyr ac maent wedi golygu eu bod yn postio eitemau ar gyfryngau cymdeithasol na fyddent wedi'u dweud fel arfer a rhoi pethau mewn e-bost na fyddent wedi'u rhoi mewn gohebiaeth 'ffurfiol' megis llythyr.

Mae gan y cyfryngau cymdeithasol y potensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynghorwyr a bywyd y cyngor ond rhaid cymryd gofal yn sgil digyfryngedd (unwaith y byddwch wedi postio rhywbeth, ni allwch ei dynnu'n ôl), materion ynghylch naws/llais a'r ffiniau cyfnewidiol rhwng rôl person fel cynghorydd a'u bywyd preifat.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyfle dwyffordd i'r cyngor a chynghorwyr i ennill gwybodaeth am y bobl y maent yn eu gwasanaethu ynghyd â darparu gwybodaeth, ond rhaid eu defnyddio'n gyfrifol a rhaid rheoli'r risgiau.

**2. Canu'r Gloch - Sioned Wyn Davies, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyda Kumi Ariyadasa, Cyfreithiwr yng Nghyngor Dinas Caerdydd.**

Roedd y gweithdy hwn yn adolygu arferion gorau a chanllawiau, rôl pwyllgorau safonau a moesegau wrth adolygu achosion a dulliau o gyfathrebu. Roedd yn ystyried rôl y pwyllgor wrth fodloni ei ofynion statudol a'i rôl/diddordeb ehangach mewn moesegau a diwylliant y sefydliad i hyrwyddo safonau.

Cafwyd trafodaeth hir yn y gweithdy ynghylch rôl a chylch gorchwyl pwyllgorau safonau a moesegau, a ph'un a oedd gan y rheini a enwyd yn 'bwyllgorau safonau' gylch gorchwyl mwy cyfyngedig na'r rheini y mae eu rôl yn cynnwys moesegau yn benodol hefyd; ac i ba raddau y dylai pwyllgorau fod yn rhagweithiol yn hytrach na bod yn ymatebol. Nodwyd bod rhai cynghorau wedi ychwanegu materion megis goruchwylio trefniadau canu'r gloch i swyddogaethau statudol eu pwyllgorau safonau, fel y caniateir drwy'r gyfraith. Y rhesymeg y tu ôl i'r ymagwedd hon yw bod

canu'r gloch yn adroddiad a wneir er budd y cyhoedd, a allai godi materion moesegol ac effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd. Mae cynghorau eraill wedi mabwysiadu trefniadau gwahanol, ynghylch canu'r gloch fel mater cyflogaeth yn unig, ac mae eraill yn adrodd i Bwyllgorau Craffu neu Archwilio.

Cydnabuwyd bod trefniadau canu'r gloch effeithiol yn rhoi gwarchodaeth i weithwyr Cynghorau ynghyd ag i'r sefydliad ei hun. Fodd bynnag, mae'n bosib bod rhai sefydliadau yn ei chael hi'n anodd dygymod â'u trefnau canu'r gloch; a rhaid i'r diwylliant a'r agweddau o fewn y sefydliadau hynny gael eu tynnu i mewn i fod yn unol ag egwyddorion Nolan.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd arweinyddiaeth, diwylliant a pherchnogaeth staff, ynghyd â threfnau clir a hyfforddiant, a chafwyd cytundeb cyffredinol y dylai rhywbeth oni bai am reolaeth llinell fod ar gael o fewn a'r tu allan i'r sefydliad. Awgrymodd rhai oedd yn bresennol y dylid ymdrin â chanu'r gloch y tu allan i awdurdodau lleol er mwyn hyrwyddo gwrthrychedd, ac y dylid mynd ar ôl hyn yn genedlaethol, gan ddwyn i mewn yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

**3. Cynghorau Cymuned - Llywodraethu a Safonau - Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd a Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr, Un Llais Cymru.**

Roedd y gweithdy hwn yn edrych ar brofion cymhwysedd, democratiaeth, gallu, capasiti a llywodraethu arfaethedig newydd Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd goblygiadau ymarferol y profion hynny. Roedd hyn yn adlewyrchu ar yr amrywiad sylweddol yn nhermau poblogaeth ac adnoddau a chapasiti staff a oedd yn bodoli ledled y sector yng Nghymru. Roedd canfyddiad y byddai cyflawni'r trothwyon hyn yn cyflwyno heriau gwahanol i wahanol awdurdodau.

Gan ddatblygu o'r drafodaeth honno, trafodwyd rôl partneriaethau a chydweithio fel cerbyd ar gyfer datblygu capasiti ac amlinellodd y drafodaeth enghreifftiau o drefniadau ar y cyd a oedd eisoes yn weithredol neu'n cael eu datblygu. Roedd y drafodaeth hon hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod materion ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd yn codi ac ymatebion a datrysiadau'n cael eu darganfod ble roedd trefniadau ar y cyd yn cael eu datblygu.

Roedd y trafodaethau hefyd yn ein tynnu at yr heriau ariannol cyfredol a'r rôl y gallai Cynghorau Cymuned ei chwarae wrth gymryd rhan neu ddarparu gwasanaethau yn lle'r Cynghorau Sir neu gyda nhw. Codwyd pryderon ynghylch cyflymder y newidiadau oedd yn digwydd a gallu Cynghorau Cymuned i ymateb yn benodol os oedd hyn yn golygu newidiadau i'r presept. Roedd teimlad clir bod angen trafodaeth ynghylch disgwyliadau a chapasiti.

Fe ystyriodd y grwpiau faterion ynghylch llywodraethu a'r Cod Ymarfer hefyd. Un thema a godwyd oedd ynghylch profiad rhai Cynghorau gydag aelodau anodd a'r effaith y gallent ei chael ar weithrediad y busnes. Gellid ystyried prosesau datrys lleol

ar lefel Cyngor Cymuned ond rhaid oedd cydnabod mai sefydliadau bychain oedd yn ceisio ymdrin â'r materion hyn gan fwyaf.

**4. Datrys Cwynion yn Lleol - Ymarferoldeb - Mel Jehu MBE, Cadeirydd Pwyllgor Safonau a Moesegau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Paul Lucas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.**

Roedd y gweithdy'n adolygu profiad Pwyllgor Safonau RCT wrth weithredu Trefn Datrys Leol ar gyfer cwynion lefel isel Aelod am Aelod.

Nodwyd bod cyflwyno'r Protocol wedi arwain at welliant i ymddygiad Aelodau: Ni dderbyniwyd unrhyw achosion newydd ers mis Ebrill 2013. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithred gadarn gan Aelodau Pwyllgorau Safonau wrth ymdrin â gwrandawiadau a chwynion dan y Protocol Lleol. Un deilliant allweddol oedd gwell dealltwriaeth o'r hyn y gellid ei ystyried yn gŵyn gyfreithlon a lle i dynnu'r lefel trothwy ar gyfer ymryson gwleidyddol.

Cafwyd trafodaeth faith yn y gweithdy ynghylch y posibilrwydd o ymestyn trefn datrys leol i gynghorau tref a chymuned.

Un mater allweddol oedd diffyg cosb (ac eithrio cerydd) i ymdrin ag ymddygiad lefel isel parhaus gan Aelodau a oedd yn gwrthod cydymffurfio â'r broses datrys leol. Pwerau cynhenid Cyngor i reoli ymddygiad fel y nodir yn achos 2001 o R v Broadland District Council ex parte. Trafodwyd Lansley yn y cyd-destun hwn hefyd.

Yn olaf, nodwyd bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn debygol o ymestyn rôl Pwyllgorau Safonau i reoli perfformiad Aelodau h.y. presenoldeb mewn cyfarfodydd a hyfforddiant.

**5. A yw Egwyddorion Nolan yn addas i'r pwrpas yn yr hinsawdd gyfredol ac am yr 20 mlynedd nesaf? - Nick Bennet, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Delyth Jones, Swyddog Monitro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.**

Roedd y gweithdy hwn yn barhad o'r drafodaeth yn sesiwn y bore.

**Themâu cyffredin yn y gynhadledd**

Mae nifer o aelodau sy'n gweithredu ar sail foesol mewn sefydliadau. Mae'r rhain yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill, chwip pleidiau, y prif weithredwr, y swyddog monitro a'r pwyllgor safonau. Mae ganddynt oll rôl i'w chwarae wrth geisio gwella diwylliant moesegol cynghorau.  Mae'r Cod Ymarfer yn gefndir pwysig ond mae'n bwysig i'r arweinwyr weithio'n anffurfiol drwy osod esiampl i eraill i'w dilyn a gweithio'n agos gydag unigolion (yn y grwpiau gwleidyddol yn arbennig).

Pan fo ymddygiad anfoesegol yn digwydd, cododd y rheini oedd yn y gynhadledd bryderon ynghylch y math o gosbau oedd ar gael (pa mor llym ydynt), sut mae'r rhain yn cael eu gweithredu a 'grym' cerydd fel cosb. Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, roedd cynghorau'n awyddus i glywed y gwahanol ffyrdd y mae cynghorau eraill wedi'u defnyddio'n llwyddiannus i ymdrin ag unigolion 'diegwyddor'.

Cafwyd trafodaeth hefyd ar rôl y Pwyllgorau Safonau a Moesegau yn dilyn dyfarniad Calver sydd wedi codi'r trothwy o'r hyn a ystyrir yn ymddygiad anfoesegol gan gynghorwyr. Gofynnwyd nifer o gwestiynau:

- A ddylai pwyllgorau fod yn fwy pendant wrth benderfynu eu hunain ynghylch yr hyn nad yw'n ymddygiad derbyniol?
- A ddylai pwyllgorau fod yn fwy rhagweithiol wrth 'chwilio am waith' er mwyn ceisio gwella diwylliant moesegol sefydliadau?
- Ar ba bwynt y mae Pwyllgorau Safonau a Moesegau yn peryglu colli eu hannibyniaeth?

Yn y pen draw, mae atal yn well na gwella, ac felly mae hyfforddiant yn hanfodol wrth ledaenu'r negeseuon amrywiol ynghylch ymddygiad moesegol. Cafwyd trafodaeth ynghylch a ellid darparu hyfforddiant mewn gwahanol ffurfiau i gyd-fynd ag arddulliau dysgu cynghorwyr ac a ellid gwneud hyfforddiant yn orfodol. Pa ddulliau eraill, y tu hwnt i hyfforddiant, sydd ar gael i hyrwyddo ymddygiad da rhwng cynghorwyr?

Cafwyd trafodaethau diddorol ynghylch Cynghorau Cymuned a Thref yn y gynhadledd. O gofio y gallai CCaTh dderbyn mwy o gyfrifoldebau, roedd pryder bod y gefnogaeth maent yn ei derbyn ar faterion moesegol yn amrywio ar draws y prif gynghorau. Rhaid meddwl ymhellach ynghylch sicrhau bod CCaTh yn derbyn yr holl wybodaeth ac yn cael eu cefnogi'n iawn. Clywodd y gynhadledd nad oedd pethau'n hawdd i glercod pan fyddant yn cael eu trin yn amhriodol gan aelodau, yn enwedig ers achos Calver a oedd yn awgrymu bod gan wleidyddion hawl i fod yn gadarn mewn cyd-destun gwleidyddol.

Mae tri-chwarter y cwynion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cau wedi ystyriaeth gychwynnol. Mae'n bwysig, felly, bod cynghorwyr yn deall hyn a bod yr arfer o ymchwilio i gwynion yn lleol a chan yr Ombwdsmon yn gostus ac yn defnyddio adnoddau prin.

Mae ymddygiad y mwyafrif llethol o gynghorwyr yn dda ac mae enghreifftiau o lygredigaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru yn brin. Dylid gwneud mwy er mwyn rhannu'r ffaith hon yn rhagweithiol, serch y pryderon na fyddai gan y cyfryngau ddiddordeb mewn stori 'newyddion da' fel hyn.

**Enghreifftiau o arfer dda**

Mae'n bwysig cael digwyddiadau rheolaidd, megis y gynhadledd hon, i rannu 'arfer dda' rhwng cynghorau lleol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Mae Cyngor Caerdydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gynghorwyr lofnodi 'Ymrwymiad Caerdydd' sy'n atgyfnerthu Cod Ymddygiad Aelodau ac yn ffurfio rhan o'r cod moesegol sy'n rhwymedigaeth i holl Gynghorwyr Cyngor Caerdydd.
- Mae Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau a Moesegau yng ngogledd Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth, ond nid yw hyn yn digwydd yn y de.
- Mae aelodau Pwyllgorau Safonau Ceredigion wedi ymweld â'r holl Gynghorau Cymuned yn eu hardal.
- Mae gan gynghorau ffyrdd gwahanol o gynnal datrysiadau lleol. Yn RCT, mae'r cyngor cyfan yn rhan o'r broses yn hytrach na thri aelod Annibynnol yng Nghaerdydd. Pa broses sy'n gweithio orau a pham?
- Mae amrywiaeth yn y graddau o hyfforddiant a gynhelir i aelodau Pwyllgorau. Roedd RCT yn defnyddio chwarae-rôl strwythuredig yn eu hyfforddiant i aelodau ac mae hyn wedi derbyn adborth cadarnhaol.
- Mae amrywiaeth eang yn nifer y cwynion sydd wedi'u datrys yn lleol ledled Cymru. Nid oes unrhyw achosion wedi bod yn RCT ers mis Mawrth 2013.

Rhagfyr 2015